



Cymeradwyo cyrff, sefydliadau neu ganolfannau o dan Gyfarwyddeb
'Balai' 92/65/EEC (fel y'i diwygiwyd)

Cais Sefydliad am Gymeradwyaeth o dan Erthygl 13 o Gyfarwyddeb y Cyngor 92/65/EEC

Yr wyf i, /Rheolwr (enw mewn
PRIFLYTHRENAU)

Perchennog
sef *perchennog/rheolwr y safle yn: (cyfeiriad llawn)

Cod post

Rhif ffôn (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol)

drwy hyn yn gwneud cais i Defra/Gweithrediaeth yr Alban/Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r sefydliad uchod yn unol ag Erthygl 13 o Gyfarwyddeb Cyngor yr UE 92/65/EEC (fel y'i diwygiwyd)

Cadarnhaf y canlynol:

1. Rwyf wedi darllen y rhestr wirio gyda'r Nodiadau Cyfarwyddyd sy'n ymwneud â chymeradwyaeth.
2. Deallaf y caiff y sefydliad uchod ei arolygu a bod yn rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y rhestr wirio cyn y caiff ei gymeradwyo.
3. Cadarnhaf fod y sefydliad/nad yw'r sefydliad* a enwir uchod is/is not* wedi'i drwyddedu o dan Orchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 (fel y'i diwygiwyd).
4. Deallaf fod yn rhaid i Filfeddyg Cymeradwy gael ei enwebu i sicrhau cydymffurfiaeth feunyddiol â gofynion y Gyfarwyddeb.

Y milfeddyg yr wyf am iddo weithredu fel y Milfeddyg Cymeradwy yw:

Enw mewn PRIFLYTHRENAU Dyddiad

Dylai'r blychau canlynol gael eu defnyddio gan filfeddygon a gymeradwywyd gan y Dirprwy:

Enw mewn PRIFLYTHRENAU Dyddiad

Enw mewn PRIFLYTHRENAU Dyddiad

Cyfeiriad
Cod post

Rhif ffôn (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol)

Rhif ffôn symudol

Atodaf gynllun yn dangos y sefydliad cyfan ac yn dynodi terfynau'r ardal rwy'n ceisio cymeradwyaeth ar ei chyfer.

Deallaf a chytunaf, os caiff fy safle ei gymeradwyo, y gall manylion y gymeradwyaeth ymddangos ar restr gyhoeddus ar wefannau Defra/APHA (ar gyfer rhai safleoedd a gymeradwywyd dim ond y rhif cymeradwyo a'r LVU a ddangosir ar y rhestr).

Nodir y dosbarthiadau/gorchmynion tacsonomaidd rwyf am i'r gymeradwyaeth hon eu cwmpasu yn Atodiad A drosodd.

* dilêwch fel y bo'n briodol

† Mae "Milfeddyg Cymeradwy" yn cyfeirio at unigolyn a benodwyd gan APHA yn unol ag Atodiad C i Gyfarwyddeb yr UE 92/65 EEC (fel y'i diwygiwyd).

Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Safleoedd sy'n Dymuno Gwneud Cais am Gymeradwyaeth o dan Erthygl 13 ac Atodiad C i Gyfarwyddeb Balai 92/65/EEC, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad Comisiwn CE Rhif 1282/2002

- Dylai safleoedd a gaiff eu cymeradwyo o dan y ddeddfwriaeth uchod allu anfon anifeiliaid i/o safleoedd a gymeradwywyd yn y DU i safleoedd tebyg a gymeradwywyd mewn Aelod Wladwriaethau eraill yn yr UE o dan weithdrefnau ardystio arbennig, a ddylai fod yn symlach, yn gyffredinol, na'r gweithdrefnau hynny ar gyfer ardystio anifeiliaid o safleoedd nas cymeradwywyd. Nid oes angen dilyn y weithdrefn a ddisgrifir isod os bydd safle ond yn dymuno symud anifeiliaid rhwng sefydliadau yn y DU. Os symudir anifeiliaid a gwmpesir gan Gyfarwyddeb Balai i Ogledd Iwerddon, dylai sŵau, sefydliadau a chyrrff gadarnhau a oes angen trwydded fewnforio.
- Nodir y gofynion ar gyfer cael statws cymeradwy yn Atodiad C i Gyfarwyddeb Balai (fel y'i diwygiwyd gan Reoliad CE Rhif 1282/2002.).
- Caiff y 'Rhestr Wirio ar gyfer arolygiad cymeradwyo cychwynnol' ei defnyddio gan y Swyddog Milfeddygol a fydd yn arolygu'r safle cyn ei gymeradwyo. Os bydd y swyddog milfeddygol o'r farn bod modd bodloni'r holl amodau ar gyfer cymeradwyaeth, gofynnir i'r perchennog neu gynrychiolydd y perchennog a'r milfeddyg cymeradwy lofnodi tudalen olaf y rhestr wirio. Drwy lofnodi eu henwau, byddant yn cadarnhau eu bod wedi darllen y rhestr wirio ac yn ymrwymo i fodloni'r holl amodau ac mae'n ofynnol, o dan y gymeradwyaeth, fod y ddau yn ymrwymo i hyn.
- Os bydd perchennog/rheolwr safle am i'w safle gael ei gymeradwyo, rhaid iddo gwblhau ffurflen gais a'i dychwelyd at yr VHoFD lleol/VLS/VLW. Ar y ffurflen gais gofynnir iddo enwebu milfeddyg a fydd yn gweithredu fel y 'milfeddyg cymeradwy' ar gyfer y safle. Bydd yr VHoFD/VLS/VLW yn trefnu i'r milfeddyg cymeradwy gynnal ymweliad arolygu, gan ddefnyddio'r rhestr wirio uchod. Bydd yr VHoFD/VLS/VLW hefyd yn trefnu i gyfweld â'r milfeddyg cymeradwy a'i hyfforddi ar ofynion statws cymeradwy.
- Os caiff y safle ei gymeradwyo bydd yr VHoFD/VLS/VLW yn hysbysu'r safle yn ysgrifenedig, gan roi rhif cymeradwyo unigryw iddo. Os na ellir cymeradwyo'r safle am ba reswm bynnag, caiff yr ymgeisydd wybod yn ysgrifenedig, a chaiff ei wahodd i wneud cais arall ar ôl iddo gymryd camau i unioni'r diffygion.
- Caiff safleoedd cymeradwy eu hailarolygu unwaith y flwyddyn gan swyddog milfeddygol, ond os bydd yr VHoFD/VLS/VLW o'r farn ei bod yn ddoeth oherwydd y sefyllfa o ran clefyd neu unrhyw reswm arall, gall ofyn am ymweliadau arolygu ychwanegol.
- Y Ddeddf Diogelu Data: Ers 1 Ionawr 2010 bu'n ofynnol i Aelod Wladwriaethau ddarparu tudalennau gwybodaeth oddi ar y we sy'n cynnwys rhestrau o sefydliadau a labordai a gymeradwywyd yn unol â deddfwriaeth filfeddygol a sootechnegol gymunedol, gan gynnwys Cyfarwyddeb Balai. Pan fydd safle yn gwneud ei gais cychwynnol am gymeradwyaeth, gofynnir iddo gadarnhau na fyddai ganddo unrhyw wrthwynebiad i gyhoeddi manylion perthnasol. Ar gyfer rhai safleoedd dim ond y rhif cymeradwyo ac LVU a nodir ar y rhestr.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.